

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau/ Economy, Infrastructure and Skills
Committee
Prentisiaethau yng Nghymru 2017 / Apprenticeships in Wales 2017
Ymateb gan Comisiynydd y Gymraeg / Evidence from Welsh Language
Commissioner



Mr Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

02/05/2017

Annwyl Gadeirydd,

Prentisiaethau yng Nghymru 2017

Wrth ysgrifennu atoch ar 11eg Ebrill ynghylch cylch gorchwyl yr ymchwiliad uchod, nodais fy mwriad i rannu'r dystiolaeth sydd gennyf ynghylch defnydd y Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaethau; a'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd y ddarpariaeth yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Cefndir

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i roi sylw i'r ymchwiliad. Prif nod Comisiynydd y Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny bydd y Comisiynydd yn ceisio cynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a'r dyletswyddau statudol i ddefnyddio'r Gymraeg drwy osod safonau.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd sef

- na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Darperir sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae'r

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol yn unol â darpariaethau'r Mesur.

Yn unol â hynny, cynigir isod sylwadau mewn perthynas â chylch gorchwyl yr ymchwiliad.

Safon y data sydd ar gael

Prin yw'r data sydd ar gael yn gyhoeddus ynghylch defnydd y Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaethau. Gwyddom o [Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru](#) am nifer y gweithgareddau dysgu seiliedig ar waith cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a gydag elfen o'r Gymraeg ers 2003/04. Nodwn fod y data hwn yn ymwneud â gweithgareddau dysgu seiliedig ar waith ac *nid* â phrentisiaethau'n benodol. Mae'r mwyafrif o raglenni dysgu seiliedig ar waith yn rhaglenni prentisiaethau (76 y cant y llynedd, a 74 y cant yn 2014/15) ac felly mae'r data yma yn ddangosydd o ddefnydd y Gymraeg o fewn rhaglenni prentisiaethau.

O ran rhaglenni prentisiaethau'n benodol, gwyddom nifer y rhaglenni oedd yn cynnwys gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a gydag elfen o'r Gymraeg rhwng 2011/12 a 2014/15. Daw'r wybodaeth hon o [gais rhyddid gwybodaeth](#) (12 Mai 2016), ond ni chaiff y wybodaeth yma ei gyhoeddi a'i ddiweddarau ar wefannau megis Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

Dengys y data uchod y nifer o weithgareddau dysgu a rhaglenni Cymraeg a dwyieithog fesul math a lefel o gymhwyster *yn unig*. Byddai'n ddefnyddiol gallu dadansoddi'r ddarpariaeth Cymraeg a dwyieithog yn ôl yr un meysydd â ddefnyddir i ddadansoddi data arall ar raglenni dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau e.e. ar sail pwnc astudio, grŵp oedran a rhanbarth awdurdod domisil y dysgwr.

Mae'r data cyhoeddus ynghylch defnydd y Gymraeg mewn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau'n benodol yn brin ac yn ddarniog.

Defnydd y Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaethau – y sefyllfa gyfredol

Yn y lle cyntaf, rhaid tanlinellu bod y dull o gategoreiddio a chofnodi defnydd y Gymraeg mewn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau'n benodol wedi newid ers 2014/15. Ers 2014/15, diffinir cyfrwng iaith y gweithgareddau ar sail iaith asesu yn unig. Hefyd, defnyddir categori newydd ('rhywfaint o ddysgu dwyieithog') er mwyn cofnodi gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys rhai elfennau yn y Gymraeg, ond sy'n cael eu



hasesu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yn Saesneg. Golyga hyn fod rhaid bod yn ofalus wrth gymharu'r data cyn ac ar ôl 2014/15. Mae'n bosibl, er enghraifft, bod y ffocws newydd ar gyfrwng iaith yr asesu yn unig o 2014/15 ymlaen yn rhoi darlun cywirach o ddefnydd y Gymraeg yn y rhaglenni dan sylw. Hefyd, dim ond dwy flynedd o ddata sydd gennym a gofnodwyd o dan y drefn ddiwygiedig.

Gan gadw'r uchod mewn cof, dengys y data fel a ganlyn:

- Mae'r canran o weithgareddau dysgu seiliedig ar waith a gynhelir trwy gyfrwng Cymraeg neu'n ddwyieithog yn isel iawn. Ers 2011/12, ar gyfartaledd dim ond **3 y cant** o weithgareddau dysgu seiliedig ar waithsydd wedi eu categoreiddio fel rhai dwyieithog; a dim ond **0.3 y cant** sydd wedi eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg. Y llynedd (2015/16) aseswyd 162,480 gweithgaredd dysgu seiliedig ar waith. O'r nifer hwnnw, 5,045 a aseswyd yn ddwyieithog (3.1 y cant); a 685 yn y Gymraeg yn unig (0.4 y cant).
- Dengys y data ers 2014/15 y cynhaliwyd rhai asesiadau oedd yn cynnwys 'rhywfaint o'r Gymraeg'. Yn 2015/16 roedd rhyw elfen o'r Gymraeg mewn 8,085 asesiad – **sef 5 y cant** o'r holl weithgareddau dysgu.
- Mae'r data sy'n ymwneud â phrentisiaethau'n benodol yn cyfleu darlun tebyg. Rhwng 2011/12 a 2014/15 cwblhawyd bron **96 y cant** o brentisiaethau yn Saesneg yn unig ar gyfartaledd. Yn 2014/15 roedd tua **5 y cant** o raglenni'n cynnwys o leiaf un gweithgaredd dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, ond eto, **0.3 y cant** o weithgareddau a gwblhawyd yn y Gymraeg yn unig.

Mae defnydd y Gymraeg mewn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau'n benodol yn isel iawn. Ni welwyd dros y blynyddoedd diwethaf unrhyw gynnydd arwyddocaol yn nifer a chanran y rheini sy'n dysgu ac yn cael eu hasesu yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Gwyddom rywfaint am y ffactorau sy'n debygol o rwystro cynnydd, er bod tystiolaeth am y ffactorau hyn yn fylchog. Mae'r anawsterau wrth gynyddu defnydd y Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaethau yn cynnwys:

- **Diffyg galw gan ddysgwyr.** Ym marn cyflogwyr a darparwyr, galw isel am brentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yw un o'r prif ffactorau sydd wrth



wraidd y sefyllfa bresennol.¹ Yn ôl Arolwg Llais y *Dysgwyr ôl-16 Cymru* yn 2014 a 2015, dim ond un allan o ddeg o ddysgwyr a chawsant yr opsiwn o ddysgu yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog wnaeth ddweud yr hoffent fanteisio ar y cyfle hwnnw.² Nododd Estyn yn 2014/15 a 2015/16 mai ychydig iawn o ddysgwyr sy'n dewis ysgrifennu asesiadau yn Gymraeg³ Mae'n debyg bod galw isel gan ddysgwyr yn deillio i raddau o ddiffyg hyder yn eu sgiliau ieithyddol; ac o'r gred nad yw'r Gymraeg yn ased yn y gweithle.⁴

- **Diffyg cynnig rhagweithiol.** Nododd Estyn yn 2013 '[nad] yw llawer o ddarparwyr yn mynd ati'n ddigon da i ddadansoddi anghenion Cymraeg dysgwyr, ac nid yw pob un o'r darparwyr yn annog dysgwyr Cymraeg eu hiaith i ymgymryd â hyfforddiant ac asesu yn Gymraeg'.⁵ Yn ôl canfyddiadau *Arolwg Llais y Dysgwyr ôl-16 Cymru*, derbyniodd llai na hanner o ddysgwyr yn sector dysgu seiliedig ar waith gynnig i ddysgu yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn 2014 a 2015.⁶ Wrth gyhoeddi canllawiau hunanasesu ar gyfer darparwyr ôl-16 yn 2016 nododd Llywodraeth Cymru 'y dylai darparwyr fod yn gwerthuso i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn'.⁷
- **Diffyg aseswyr.** Nodwyd yn adroddiad *Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith 2011-14: Prentisiaethau - Diwygiedig* nad oedd gan lawer o ddarparwyr ddigon o aseswyr dwyieithog. Yn ôl y gwerthusiad, roedd goblygiadau yn sgîl hynny i'r mathau o hyfforddiant oedd ar gael i ddysgwyr. Hefyd, gwelwyd ar adegau bod rhaid i rhai darparwyr gyfeirio dysgwyr at ddarparwyr eraill, gan nad oedd ganddynt aseswyr dwyieithog mewn pynciau penodol.⁸
- **Maint y ddarpariaeth.** Ceir negeseuon gwrthgyferbyniol am ddigonolrwydd darpariaeth rhaglenni prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn ôl

¹ Llywodraeth Cymru, *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2014/15* (Gorffennaf 2015), t. 9; York Consulting, Old Bell 3, IFF Research a Phrifysgol Caerdydd, *Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith 2011-14: Prentisiaethau - Diwygiedig* (Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 29 Mehefin 2016), t. 4.

² Ystadegau ar gyfer Cymru, Post-16 Learner Voice Wales survey results, 2014 (17 Ebrill 2014) [Cyhoeddiad Saesneg yn unig]. <http://gov.wales/docs/statistics/2014/140417-post-16-learner-voice-wales-survey-2014-en.pdf>

Ystadegau ar gyfer Cymru, Post-16 Learner Voice Wales survey results, 2015 (21 Ebrill 2015) [Cyhoeddiad Saesneg yn unig]. <http://gov.wales/docs/statistics/2015/150421-post-16-learner-voice-wales-survey-2015-en.pdf>

³ Estyn, *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014-2015* (2015), t. 94; Estyn, *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2015-2016* (2016), t. 112 a 114.

⁴ York Consulting, Old Bell 3, IFF Research a Phrifysgol Caerdydd, *Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith 2011-14: Prentisiaethau - Diwygiedig* (Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 29 Mehefin 2016), t. 73.

⁵ Estyn, *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2012-2013* (2013), t. 125.

⁶ Ystadegau ar gyfer Cymru, Post-16 Learner Voice Wales survey results, 2014 (17 Ebrill 2014) [Cyhoeddiad Saesneg yn unig]. <http://gov.wales/docs/statistics/2014/140417-post-16-learner-voice-wales-survey-2014-en.pdf>

Ystadegau ar gyfer Cymru, Post-16 Learner Voice Wales survey results, 2015 (21 Ebrill 2015) [Cyhoeddiad Saesneg yn unig]. <http://gov.wales/docs/statistics/2015/150421-post-16-learner-voice-wales-survey-2015-en.pdf>

⁷ Llywodraeth Cymru, *Canllawiau hunanasesu ar gyfer darparwyr ôl-16* (Gorffennaf 2016), t. 7 <http://gov.wales/docs/dcells/publications/160707-sar-guidance-cy.pdf>

⁸ York Consulting, Old Bell 3, IFF Research a Phrifysgol Caerdydd, *Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith 2011-14: Prentisiaethau - Diwygiedig* (Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 29 Mehefin 2016), t. 74.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

adroddiadau blynyddol Estyn yn 2014/15 a 2015/16 mae cyfleoedd i ddysgwyr dderbyn eu hyfforddiant a gwneud asesiadau yn Gymraeg wedi cynyddu o gymharu â'r ddarpariaeth yn y gorffennol⁹ Wrth ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru' (Gorffennaf 2015) nodwyd gan lawer o ymatebwyr fod darpariaeth ddigonol o brentisiaethau cyfrwng Gymraeg eisoes ar gael ond bod angen gwneud mwy i'w hyrwyddo'n ehangach. Ar yr un pryd, roedd 73 y cant o ymatebwyr i fersiwn penodol yr ymgynghoriad hwn i bobl ifanc o'r farn y dylid cael rhagor o brentisiaethau cyfrwng Gymraeg.¹⁰

Mae gwahanol ffactorau yn gallu dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg mewn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau'n benodol, gan gynnwys diffyg galw gan ddysgwyr; diffyg cynnig rhagweithiol o ddarpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog; diffyg aseswyr dwyieithog; a hyd a lled y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog.

Mae rhaglenni dysgu seiliedig ar waith fel prentisiaethau yn gwbl allweddol er mwyn sicrhau dilyniant o'r byd addysg i'r byd gwaith mewn cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hynny yn ei dro yn allweddol er mwyn creu gweithlu dwyieithog sy'n medru gwasanaethu poblogaeth ddwyieithog. Yn fy llythyr atoch ar 11eg Ebrill mynegais fy mhryderon ynghylch diffyg ystyriaeth i'r Gymraeg wrth adolygu rhaglenni prentisiaethau yng Nghymru a bod hynny'n rhwystr i adnabod cryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth bresennol a sicrhau cynnydd dros y blynyddoedd i ddod. Hyderaf fod y wybodaeth uchod yn amlygu'r angen i roi sylw penodol i sefyllfa'r Gymraeg yn y rhaglenni hyn ac i ystyried sut i'w wella yn y blynyddoedd i ddod.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

⁹ Estyn, *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014-2015* (2015), t. 94; Estyn, *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2015-2016* (2016), t. 112 a 114.

¹⁰ Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion. Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru* (Gorffennaf 2015), tt. 13-14 <http://gov.wales/docs/dcells/consultation/150701-sor-cy.pdf>